EISTEDDFOD GARNDOLBENMAEN A'R CYLCH 2020

Cynhaliwyd Eisteddfod Garndolbenmaen a'r Cylch yn Neuadd y Pentref, Garndolbenmaen, dydd Sadwrn 25 Ionawr 2020. Cafwyd dau gyfarfod llewyrchus a nifer dda o gystadleuwyr.

Y beirniaid oedd: Cerdd a Cherdd Dant – Sion Goronwy, Rhyduchaf, Y Bala; Adrodd/Llefaru, Llên a Barddoniaeth – Linda'r Hafod, Llannerch-y-Medd, Ynys Môn; Arlunio – Eirian, Pwlldefaid. Y cyfeilydd oedd Tudur P. Jones, Tywyn, Meirionnydd. Yr arweinyddion oedd Nesta Jones, Ann Pierce Jones a Bethan Dobson.

Swyddogion y pwyllgor yw: Llywydd – Gwen Owen; Is-lywydd – Nerys Ll. Thomas; Ysgrifennydd – Esyllt Williams; Is-ysgrifennydd – Bethan Dobson; Trysorydd – Richard Parry; Is-drysorydd – Carolyn Jones. Cafwyd cyfle i groesawu Esyllt Williams i swydd yr ysgrifennydd a diolch i Rose A. Jones y cyn-ysgrifennydd a'i phriod Ieuan O. Jones am eu gwasanaeth maith i'r Eisteddfod.

Cadeirydd yr Eisteddfod eleni oedd Iwan Llewelyn Owen, Newcastle. Pleser oedd ei groesawu yno ynghyd â'i fam Mrs Rhiannon Owen, Tŷ Capel gynt.

Enillwyd y wobr arbennig o £25 am yr adroddiad gorau yng nghyfarfod y prynhawn gan Erin Llwyd, Glanrafon, Bala. Enillwyd y wobr arbennig o £25 yn rhoddedig gan Gôr Meibion Dwyfor am y datganiad gorau yn yr adran gerdd yng nghyfarfod y prynhawn gan Lea Mererid Roberts, Pwllheli am ei hunawd piano. Enillwyd y wobr arbennig o £25 yn rhoddedig gan O. Gerallt Jones ac Alun Llwyd am y datganiad gorau yn adran cerdd dant y prynhawn er cof am eu rhieni, Vera a D. G. Jones (Selyf) gan Elain Rhys, Trawsfynydd.

Enillydd Tlws yr Ifanc oedd Erin Aled, Llanuwchllyn sy'n fyfyriwr yng Ngholeg Meirion Dwyfor, Dolgellau. Roedd 28 wedi ymgeisio a derbyniodd Erin ganmoliaeth arbennig gan y beirniad am safon uchel ei stori fer. Roedd Tlws yr Ifanc a Thocyn Llyfr yn rhoddedig gan Mr a Mrs E. Griffiths, Ynys Wen, Cwmystradllyn a Chwmni Peirianneg Sifil Gelli er cof am Tom Richards, Wern, Llanfrothen. Diolchir iddynt ac i bawb a gyfrannodd wobrau ac a gefnogodd yr Eisteddfod mewn unrhyw ffordd.